UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Athrawon Cofrestredig yng Nghymru

Ionawr 2010

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Athrawon Cofrestredig yng Nghymru

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn falch i gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Athrawon Cofrestredig yng Nghymru.

Mae UCAC yn undeb â 5,000 o aelodau sy'n athrawon a phrifathrawon ysgol, ac yn ddarlithwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Mae ei brif swyddfa yng Nghymru, ac mae'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

1. A yw diben, cwmpas a statws y Cod Proffesiynol diwygiedig yn glir?

Ydyn.

Mae un pwynt ieithyddol yn codi yma, ac mewn mannau eraill yn y Cod, sef y defnydd o'r ymadrodd 'model rôl'. Cydnabyddwn mai anodd iawn yw cyfieithu'r term 'role model'; ond yn hytrach na 'model rôl' sy'n swnio'n annaturiol iawn yn y Gymraeg, awgrymwn ddefnyddio 'rôl ddylanwadol ar ddisgyblion.'

2. A yw'r egwyddorion allweddol yn ddigonol wrth ddiffinio proffesiynoldeb athrawon a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn addysgu?

Maent yn ddigonol, ond awgrymwn y dylent ymddangos mewn trefn wahanol. Byddai gosod yr eitem olaf ('Sicrhau bod eich gwybodaeth a'ch ymarfer proffesiynol yn gyfoes' - h.y. materion 'Ymarfer Proffesiynol') ar ben y rhestr yn fwy addas, ac yn cydnabod ymagwedd broffesiynol athrawon, gyda materion ymddygiad/disgyblaethol yn dilyn.

Awgrymwn hefyd ym mhwynt bwled 4, bod y defnydd o'r gair 'unplygrwydd' yn y fersiwn Cymraeg yn gamarweiniol; mae'n awgrymu'n gryf '*single-mindedness*' yn hytrach nag '*integrity*' fel sydd yn y fersiwn Saesneg. Byddem yn awgrymu defnyddio 'ymddwyn yn onest ac yn egwyddorol' (h.y. *in a principled manner*)

3. Pa ddiwygiadau, os unrhyw rai o gwbl, y gellid eu gwneud i adran 4, "Ymddygiad Proffesiynol"?

<u>Mae athrawon cofrestredig yn seilio'u perthynas gyda disgyblion ar ymddiriedaeth a pharch</u>

- Pwynt bwled 2 – gan fod pwyslais y pwynt hwn ar ymddiriedaeth a pharch at ddisgyblion, mae'r pwynt bwled hwn yn awgrymu gormod o ddrwgdybiaeth; awgrymwn ychwanegu'r gair 'posib' yn y llinell gyntaf, ar ôl 'peryglon' (yn y fersiwn Saesneg, ychwanegu '*possible*' cyn '*dangers*')

- Pwynt bwled 2 - gan mai nifer bach iawn o athrawon, a hynny'n anaml iawn, fyddai'n rhoi lifft i ddisgybl neu'n mynd i'w cartrefi, awgrymwn ddileu'r testun o fewn cromfachau ('er enghraifft...â'u cartrefi.'); mae'r frawddeg eisoes yn cyfeirio at 'tu allan i leoliad yr ysgol', ac mae'n gryfach heb yr enghraifft yn yr achos hwn

<u>Mae athrawon yn ystyried diogelwch a lles disgyblion yn eu gofal</u>

- Mae'r cynnwys yn dderbyniol, ond unwaith eto, byddem yn awgrymu trefn wahanol i'r pwyntiau, gyda'r pwyntiau sy'n ymwneud â'r ysgol/disgyblion yn uniongyrchol yn dod gyntaf (pwyntiau bwled 3-6), a'r pwyntiau sy'n ymwneud â gwybodaeth (pwyntiau bwled 1 a 2) yn ymddangos olaf

<u>Mae athrawon cofrestredig yn ymddwyn yn onest a chydag unplygrwydd</u>

- Fel uchod, yn lle 'a chydag unplygrwydd', awgrymwn 'ac yn egwyddorol'; mae'r ystyr yn llawer cliriach ac agosach i'r fersiwn Saesneg

4. Pa ddiwygiadau, os unrhyw rai o gwbl, y gellid eu gwneud i adran 5, "Troseddau"?

Dyma'r adran y mae gennym yr amheuon mwyaf yn ei chylch. Rydym yn derbyn y pwyntiau bwled eu hunain, ond y testun cyn ac ar ôl y pwyntiau bwled sy'n pery pryder.

Rydym yn derbyn bod ymddygiad athrawon yn eu bywydau personol yn gallu bod yn berthnasol i'w gwaith, a hynny am eu bod â rôl ddylanwadol ar ddisgyblion. Serch hynny, dadleuwn yn gryf nad yw pob trosedd yn ddifrifol mewn cyd-destun proffesiynol, nac yn berthnasol (e.e. rhai troseddau gyrru).

Mae'r gyfraith ei hun yn gwahaniaethu o ran difrifoldeb gwahanol droseddau drwy roi cosbau gwahanol. Credwn y dylai'r Cyngor Addysgu Cyffredinol osod trothwy, cydnabyddedig gan y gyfraith, ar gyfer rhai mathau o droseddau nad ydynt yn wirioneddol ddifrifol, nac yn wirioneddol berthnasol i ymddygiad proffesiynol athrawon.

Mae trin pob ymddygiad troseddol fel mater difrifol yn ymyrryd yn ormodol ym mywydau personol athrawon, ac ar yr un pryd yn rhoi baich gweinyddol a biwrocrataidd anghymesur ar y Cyngor Addysgu.

Yn ogystal, rhaid cofio bod gan Bennaeth yr ysgol, y corff llywodraethol a'r Awdurdod Lleol rôl i chwarae wrth bwyso a mesur difrifoldeb ymddygiad athrawon y tu fas i oriau a waliau'r ysgol; dadleuwn yn gryf mai nhw sydd â'r swyddogaeth o ddelio â materion fel hyn, a nhw all farnu orau yng nghyd-destun y gymuned leol.

- Pwynt bwled 2 - nid yw'r fersiwn Cymraeg yn cyfateb i'r fersiwn Saesneg yma, a chredwn y gellid gwella ar y geiriad yn y ddwy iaith:

  'peidio â chymryd rhan nac annog eraill i gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch troseddol'
  'not engage or incite others to engage in any criminal activity'

5. Pa ddiwygiadau, os unrhyw rai o gwbl, y gellid eu gwneud i adran 6, "Arfer Proffesiynol"?

Fel y dywedwyd uchod, credwn y dylai'r Adran hon ddod yn gyntaf er mwyn pwysleisio ymarfer proffesiynol.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

i) Gwrthwynebwn yn chwyrn y frawddeg 'Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y ddogfen hon, y ddogfen Saesneg gaiff flaenoriaeth.'

Mae'r frawddeg hon yn tanseilio awdurdod y fersiwn Cymraeg mewn ffordd gwbl ddianghenraid, ac mae'n annog pobl yn syth bin i droi at y fersiwn Saesneg. Mae'n dangos amarch sylfaenol ar yr iaith, ac yn rhoi'r argraff ei bod hi'n iaith israddol, llai dibynadwy, llai awdurdodol.

Mae'n werth nodi bod Llywodraeth y Cynulliad yn deddfu'n ddwyieithog; mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un mor awdurdodol â'r llall, ac mae ganddynt yr un statws yn y gyfraith. Nid yw'r Cod yn ddogfen gyfreithiol, ond yn hytrach yn *ganllaw* i athrawon cofrestredig; nid oes angen ymagwedd mor or-selog, felly. Mae lle i ddehongli ar y Cod – a hynny yn y Saesneg yn ogystal ag yn y Gymraeg.

ii) Cymrwn y cyfle hwn i bwyso ar y Cyngor Addysgu i ystyried buddiannau disgyblion wrth wrando ar achosion yn gyhoeddus, a'u hawliau nhw i breifatrwydd. Mae achosion wedi codi ble mae modd adnabod disgybl unigol, er na chrybwyllwyd ei enw, oherwydd y disgrifiad o amgylchiadau'r achos, ac i fanylion cyrraedd y cyfryngau. Mae sefyllfa o'r fath, a'r poen a achosir, yn gwbl annerbyniol, a phwyswn ar y Cyngor Addysgu i ystyried hawliau'r plentyn mewn sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com